

ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRWYIAETH

Mae nifer y syrcasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt a nifer yr anifeiliaid gwyllt yn y syrcasau hynny wedi gostwng yn aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl Animal Defenders International, ym 1997, roedd 124 o anifeiliaid 'egsotig' yn teithio gyda syrcasau'r DU, gan gynnwys rheino, 16 eliffant, 15 llew ac 16 teigr¹ mewn 20 syrcas². Yn 2005, roedd nifer yr anifeiliaid 'egsotig' wedi gostwng i 47. Yn ôl Asesiad Effaith Defra yn 2012, roedd 40 o anifeiliaid gwyllt mewn tair syrcas deithiol yn y DU yn y flwyddyn honno.³ Bellach, dim ond dwy syrcas deithiol sy'n teithio gydag anifeiliaid gwyllt; Circus Mondao a Syrcas Peter Jolly. Mae'r ddwy o Loegr ond ymweld â Chymru'n rheolaidd. Yn ôl eu hamserlenni teithio (gweler Tabl 8.9 a Thabl 8.11 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol), maent yn weddol driw i'r un lleoliadau, sef safleoedd tir glas fel rheol.

Yn ôl Adolygiad Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), mae Circus Mondao a Syrcas Peter Jolly wedi cynnwys cyfanswm o rhwng 16 a 28 o anifeiliaid gwyllt ar adegau gwahanol ers i ofynion trwyddedu ar gyfer syrcasau teithiol sy'n cynnwys anifeiliaid gwyllt ddod i rym yn 2013.⁴ Yn eu plith yr oedd sebra, camel, zebu (math o warheg o dde Asia), carw Llychlyn, racŵn, cadno a macaw, yn ogystal â rhywogaethau domestig.

Mae Rhestr Goch o Rywogaethau Dan Fygythiad yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN), sy'n ddangosydd hollbwysig o iechyd bioamrywiaeth y byd, yn dosbarthu'r carw Llychlyn fel rhywogaeth agored i niwed a'r sebra fel rhywogaeth agored i niwed, dan fygythiad neu mewn perygl.⁵ Mae rhywogaethau macaw yn amrywio o'r rhywogaethau sydd dan ddim bygythiad i rai sydd mewn perygl difrifol (nid yw'n hysbys pa rywogaeth o facaw a gedwir). Mae gweddill y rhywogaethau'n perthyn i'r dosbarth dan ddim bygythiad. Mae'r Confensiwn ar Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Ffawna a Fflora Gwyllt sydd mewn Perygl yn gytundeb rhyngwladol rhwng llywodraethau sydd â'r nod o sicrhau nad yw masnach ryngwladol mewn sbesimenau anifeiliaid a phlanhigion gwyllt yn bygwth eu goroesiad.⁶ Mae dwy rywogaeth ac un isrywogaeth o sebra, a sawl rhywogaeth o'r macaw, wedi'u cynnwys yn atodiadau CITES sy'n rhestru rhywogaethau yn ôl i ba raddau mae angen eu gwarchod. Mae angen trwyddedau mewnforio ac allforio CITES i symud

¹ Animal Defenders International (2006). *Animal in Travelling Circuses: The Science on Suffering* <http://www.stopcircussuffering.com/wp-content/uploads/2014/08/UK-Science-on-Suffering-low_020311.pdf>

² Animal Defenders International (2004). *Animal Circuses and the Animal Welfare Bill* <<http://www.stopcircussuffering.com/wp-content/uploads/2014/08/circusesawblowres.pdf>>

³ Defra, Ending the use of wild animals in travelling circuses, Impact Assessment (2012) <http://www.legislation.gov.uk/ukia/2012/41/pdfs/ukia_20120041_en.pdf>

⁴ Defra, The Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012: Post Implementation Review 2018, January 2018 <<https://www.gov.uk/government/publications/the-welfare-of-wild-animals-in-travelling-circuses-england-regulations-2012-post-implementation-review>>

⁵ The International Union for Conservation of Nature's Red List of Threatened Species <<https://www.iucnredlist.org/>>

⁶ Convention on International Trade in Endangered Species of Wild Fauna and Flora (CITES) <<https://www.cites.org/eng>>

sbesimenau i mewn ac allan o'r UE. Er bod rhyddid i symud sbesimenau o fewn yr UE ar hyn o bryd, byddai hyn yn newid ar ôl ymadael â'r UE. Mae Rheoliadau Masnach Bywyd Gwyllt yr UE (CE Rhif 338/97 a CE Rhif 865/06) hefyd yn gwahardd gweithgareddau masnachol yn y rhywogaethau hynny a restrir yn Atodiad A y Rheoliadau uchod, oni nai i eithriad gael ei roi ar ffurf tystysgrif o'r enw Erthygl 10, a roddir gan Awdurdod Rheoli CITES y DU.

Mae'n debygol fod yr holl anifeiliaid gwyllt a gedwir gan Circus Mondao a Syrcas Peter Jolly wedi eu geni mewn caethiwed. Ni fydd gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru'n debygol o gael effaith uniongyrchol ar y fasnach yn y rhywogaethau hyn nac ar barhad y rhywogaethau hyn yn eu cynefin naturiol.

Ar hyn o bryd, mae'n bosibl i syrcasau o dir mawr Ewrop sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ymweld â Chymru⁷. Mae traddodiad y syrcas deithiol yn parhau'n gryf mewn sawl gwlad yn Ewrop; mae nifer ac amrywiaeth yr anifeiliaid gwyllt dan sylw yn fwy nag yn y Deyrnas Unedig. Mae rhai o'r syrcasau hyn yn dal i ddefnyddio anifeiliaid 'traddodiadol' y syrcas, fel eliffantod, llewod a theigrod; pob un ohonynt yn rhywogaethau sy'n cael eu dosbarthu ar Restr Goch o Rywogaethau Dan Fygythiad yr IUCN fel rhai sydd dan fygythiad neu mewn perygl ac maent wedi'u rhestru yn Atodiadau CITES.

Ar un adeg, mynd i'r syrcas fyddai'r unig gyfle oedd gan y rhan fwyaf o bobl i weld anifeiliaid gwyllt egsotig. Mae pethau wedi newid ers hynny. Mae syrcasau wedi cael eu disodli yn hynny o beth gan swau modern ac effeithiol sy'n rhoi'r flaenoriaeth fwyaf i gynnal y safonau uchaf er lles eu hanifeiliaid. Mae swau sydd wedi'u trwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu Swau 1981⁸ yn gorfod cynnal mesurau cadwraeth ac addysgu a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd am gadwraeth, yn benodol trwy ddarparu gwybodaeth am yr anifail a ddangosir a'i gynefin (dylai mesurau fod yn gymesur â maint y sw a'r math o sw)⁹. Nid oes yr un gofyn ar syrcasau teithiol. Mae'n amheus a allai amgylchedd syrcas byth ateb y fath ofyn ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn ychwanegu braidd dim neu ddim at y ddealltwriaeth o anifeiliaid gwyllt a'r amgylchedd naturiol a'r gwaith o'u gwarchod. Adleisiwyd hyn gan Gymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA) a Chymdeithas Swolegol Milfeddygol Prydain (BVZS) mewn ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) drafft: *"By the extremely restricted nature of facilities for wild animals to exhibit their natural behaviours, circuses serve no educational value either in terms of normal behaviour for the species concerned, or in providing context for their place in the natural environment."*

⁷ Defra, Register a travelling circus or animal act to travel in the EU <<https://www.gov.uk/guidance/register-a-travelling-circus-or-animal-act-to-travel-in-the-eu>>

⁸ Deddf Trwyddedu Swau 1981

<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/37/pdfs/ukpga_19810037_en.pdf>

⁹ The Secretary of State's Standards of Modern Zoo Practice

<https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69596/standards-of-zoo-practice.pdf>

Mae rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn honni bod syrcasau teithiol yn cyfrannu at gadwraeth. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr honiadau hyn yn argyhoeddiadol o gymharu â'r adnoddau a'r arbenigedd y gall sŵau modern eu clustnodi i'r gweithgareddau hyn. Yn ogystal â'r cyfleoedd i weld anifeiliaid gwyllt mewn sŵau, mae rhaglenni natur o'r radd flaenaf yn ennyn parch cynyddol at werth cynhenid anifeiliaid gwyllt yn eu cynefin naturiol.

Yn eu hadolygiad o les anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol, daeth Harris *et al* i'r casgliad bod cyfraniad cyffredinol syrcasau teithiol at gadwraeth a/neu addysg yn debygol o fod yn fach iawn, a bod argraffiadau negyddol defnyddio anifeiliaid gwyllt fel adloniant yn debygol o fod yn drech ar unrhyw fanteision posibl.¹⁰

Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu am yr effaith y mae gweld anifeiliaid gwyllt yn perfformio mewn syrcasau teithiol, ar gyfer adloniant yn unig, yn ei chael ar agweddau pobl tuag at anifeiliaid. Trwy wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau, gobaiith Llywodraeth Cymru yw cyfrannu at annog agweddau parchus a chyfrifol, yn enwedig agweddau sy'n datblygu ymhlith plant a phobl ifanc, tuag at bob rhywogaeth. Gall hyn yn ei dro arwain at ddealltwriaeth well o bwysigrwydd bioamrywiaeth.

Mae Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) yn ei gwneud yn drosedd defnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol. Yn y Bil, mae "anifail gwyllt" yn golygu anifail o fath nad yw'n cael ei ddomestigeiddio yn gyffredin yn Ynysoedd Prydain. Ni fydd y Bil yn effeithio ar ddefnyddio anifeiliaid domestig mewn syrcasau ac ni fydd yn rhwystro pobl rhag defnyddio anifeiliaid gwyllt fel adloniant mewn sefyllfaoedd eraill. Mae syrcasau teithiol wedi teithio o gwmpas y Deyrnas Unedig ers dau gan mlynedd a mwy a bydd croeso iddynt yng Nghymru o hyd, cyn belled nad ydynt yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Yn dilyn cyfnod o newid, dylai'r ddwy syrcas sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ar hyn o bryd allu parhau i deithio'n llwyddiannus yng Nghymru. Nid yw mwyafrif y syrcasau teithiol yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Yn ôl Cymdeithas Perchenogion Syrcasau Prydain Fawr, mae mwy na thri deg o syrcasau'n teithio o gwmpas Prydain bob blwyddyn.¹¹ Awgryma hyn nad oes 'premiwm' i'w gael o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt ac mae syrcasau'n gallu gweithredu'n llwyddiannus hebddynt.

¹⁰ Harris *et al.* (April 2016). *The Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses* <<https://beta.gov.wales/welfare-wild-animals-travelling-circuses>>

¹¹ Cymdeithas Perchenogion Syrcasau Prydain Fawr <<http://www.circusgb.com/index.html>>